DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD LLUN, 20 IONAWR 2020 |
| **COUNCIL SUMMONS** | MONDAY, 20 JANUARY 2020, |

Fe’ch gwysir I fynychu cyfarfod **ARBENNIG CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir yn Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Parc Cathays, Heol Gerddi'r Orsedd, Caerdydd, CF10 3ND on Dydd Llun, 20 Ionawr 2020 at 5.30 pm I drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Dydd Mawrth, 14 Ionawr 2020

**GWE-DARLLEDU**

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio. Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal gyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost Gwasanethau Democrataidd

| Eitem | | Tua Amser | Max Amser |
|---|---|---|---|
| **1** | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br><br>*Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.* | 5.30 pm | 5 mun |
| **2** | **Datgan Buddiannau**<br><br>*Derbyn datganiadau buddiannau (i'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau)* | | |
| **3** | **Hysbysiad o Gynnig**<br><br>Ystyried yr Hysbysiad Cynnig canlynol sydd wedi'i gyflwyno yn unol â Rheol 4 (b) Gweithdrefn Cyfarfod y Cyngor ar 8 Ionawr 2020.<br><br>**Cynigiwyd: Y Cynghorydd Fenella Bowden**<br><br>**Eiliwyd: Y Cynghorydd Joel Williams**<br><br>Y Cynghorwyr: McEvoy, Ford, Keith Parry, Gibson a Robson<br><br>Mae Cyngor Caerdydd yn awdurdod a arweinir gan aelodau ac felly, o bryd i'w gilydd, mae'n briodol i Aelodau'r cyngor godi pryderon dilys mewn lleoliad cyhoeddus, sef cyfarfod cyngor llawn.<br><br>Mae cynghorwyr Caerdydd yn rhieni corfforaethol i blant sy'n derbyn gofal yng ngofal y Cyngor. Yn ddiweddar mae nifer o gynghorwyr o wahanol bleidiau gwleidyddol wedi codi pryderon ynglŷn â'r adran gwasanaethau plant. Mae'r pryderon hyn yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i; atebolrwydd, craffu, tryloywder ac atebolrwydd.<br><br>Rydym yn cydnabod ac yn dymuno cofnodi'r gwaith sylweddol a'r ymrwymiad a wnaed gan y nifer fawr o staff a swyddogion yn y gwasanaethau plant a'r cyfan y maent yn ei wneud i ddiogelu ac amddiffyn plant yn ein dinas. Diben y cynnig hwn yw cadarnhau a sicrhau bod y prosesau a'r gweithdrefnau sydd gennym ar waith yn briodol, yn gyfreithlon, yn gadarn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.<br><br>Felly, yn y lle cyntaf, cynigir cynnal adolygiad annibynnol o'r gwasanaethau plant, ac mae'n ystyried y canlynol:<br><br>1. Adolygu cylch gorchwyl presennol a gweithrediad pwyllgor cynghori corfforaethol y cyngor a gwneud | 5.35 pm | 60 mun |

argymhellion ar sut y gellir cryfhau rôl y pwyllgor.

2. Ystyried y trefniadau presennol ar gyfer sut a ble y mae cynghorwyr yn adrodd am bryderon ynghylch plant sy'n derbyn gofal ac a yw'r trefniadau hyn yn ddigon cadarn ac addas ac, os nad ydynt, sut y gellir eu gwella.

3. Ystyried y trefniadau presennol o ran sut y caiff cynghorwyr eu diweddaru ynghylch pryderon ac ymholiadau ynghylch plant sy'n derbyn gofal a gwasanaethau plant y maent wedi'u codi a gwneud argymhellion ynghylch sut y gellir gwella'r trefniadau hyn i sicrhau y gall cynghorwyr gyflawni eu dyletswyddau rhiant corfforaethol.

4. Adolygu'r hyfforddiant sydd eisoes yn ei le ar gyfer cynghorwyr a gwneud argymhellion ar sut y gellir gwella'r trefniadau presennol.

5. Adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd yn eu lle ar hyn o bryd a gwneud argymhellion os ystyrir y dylai'r polisïau a/neu'r gweithdrefnau hyn gael eu diwygio a'u hadolygu.

6. Cwrdd â'r cynghorwyr i ystyried unrhyw bryderon neu argymhellion sydd ganddynt ynghylch y polisïau a'r gweithdrefnau presennol yn y gwasanaethau plant, ac ystyried eu pryderon a/neu eu hargymhellion.

7. Ystyried y trefniadau craffu presennol ar gyfer gwasanaethau plant a gwneud unrhyw argymhellion os ystyrir y dylai'r rhain wella.

Dylai'r unigolyn/unigolion sy'n cynnal yr adolygiad annibynnol o wasanaethau plant adrodd i'r Prif Weithredwr yn rhinwedd ei swydd fel Pennaeth y gwasanaeth cyflogedig. Dylid anfon copi heb ei olygu o'r adolygiad at bob cynghorydd a bydd y Prif Weithredwr yn adrodd i'r cyngor llawn gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu argymhellion yr adolygiad annibynnol.